Adeiladu Sgiliau Proffesiynol ar gyfer Llywodraeth

Y Strategaeth Sgiliau ar gyfer y Llywodraeth Ganolog

Blwyddyn Ymlaen

Crynodeb

Bydd y Strategaeth Sgiliau ar gyfer y Llywodraeth Ganolog, y cytunwyd arni gan Ysgrifenyddion Parhaol yn Ionawr 2008, yn galluogi i bob rhan o lywodraeth ganolog gyflenwi gwell gwasanaethau cyhoeddus drwy gydweithio i ddynodi ac ymdrin ag anghenion sgiliau. Yn ei blwyddyn gyntaf o gyflenwad, mae'r Strategaeth eisoes wedi cynhyrchu diwylliant mwy cydweithredol wrth gyflenwi dysgu a datblygiad, gan sefydlu'r proffesiynau fel ffocws pwysig newydd ar gyfer materion sgiliau.

Yn 2009 bydd yn dechrau cyflenwi arbedion gwirioneddol drwy weithredu cyffredin ar ddysgu a datblygiad. Bydd y proffesiynau'n dechrau trawsffurfio'r fframwaith datblygiad ar gyfer y mwyafrif helaeth o weision sifil. Cyflwynir yr elfennau cyntaf o'r rhaglen ddysgu graidd ar gyfer sgiliau gwasanaeth sifil allweddol; a byddwn yn dechrau adeiladu perthynas newydd gyda phrifysgolion a cholegau er mwyn cefnogi anghenion ein gweithlu presennol ac i'r dyfodol.

Cyflwyniad

Ar 1 Ebrill 2008 lansiodd yr Ysgrifenyddion Parhaol y Strategaeth Sgiliau ar gyfer y Llywodraeth Ganolog gyntaf. Yn cynnwys blynyddoedd 2008-09 i 2010-11, mae'r Strategaeth yn cefnogi'r gyriad tuag at sgiliau uwch, er mwyn cyflenwi trawsffurfiad gwasanaethau cyhoeddus a thwf yn yr economi. I'r perwyl hwnnw, mae'n cynnwys staff ar bob lefel, nid yn unig y rheiny sydd ar frig y Gwasanaeth Sifil. Mae'n weithredol drwy'r Gwasanaeth Sifil a Lluoedd Arfog cyfan ar draws y DU – gyda'i gilydd, tua 700,000 o bobl. Mae'n mandadu gweithredu gan amrediad o bartneriaid cyflenwi gan gynnwys adrannau, y Lluoedd Arfog, y Gweinyddiaethau Datganoledig a'r proffesiynau, yn ogystal â gan Sgiliau Llywodraeth. Mae bob partner yn atebol am ei gyfraniad ei hun, gyda Sgiliau Llywodraeth yn adrodd i Ysgrifenyddion Parhaol a Phennaeth y Staff Amddiffyn ar gynnydd yn gyffredinol. Mae'r timau canolog ar gyfer y ddau broffesiwn mwyaf, Cyflenwi Gweithredol a Pholisi, yn rhan o Sgiliau Llywodraeth – ac felly wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn – ond mae eu polisïau yn cael eu gosod gan eu Penaethiaid Proffesiwn unigol.

Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Strategaeth Sgiliau flwyddyn ymlaen yng ngoleuni datblygiadau dilynol, yn bennaf newidiadau yn economi'r byd, y rôl newydd sy'n ymddangos o fewn y Strategaeth i'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol, a datblygiad y Gwasanaeth Sifil yn y rhanbarthau. Bydd cynnydd yn erbyn y cynllun hwn yn cael ei adolygu yn hydref 2009 a gwanwyn 2010 gan y Bwrdd Cyflenwi Strategaeth Sgiliau. Bydd prif gydrannau'r Strategaeth Sgiliau yn parhau i:

- godi **safonau proffesiynol**;
- cymryd **camau ar y cyd** i ymdrin ag anghenion sgiliau cyffredin; a
- gwireddu potensial y **sectorau addysg uwch a phellach** i ailsgilio'r gweithle.

Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn tynnu sylw at waith mesur a gwerthuso'r Strategaeth. Mae'r Prif Dargedau, sy'n adlewyrchu'r rheiny yn ein Cynllun Rhaglen, yn cael eu hamlygu mewn blychau.

Ynghylch Sgiliau Llywodraeth

Sgiliau Llywodraeth yw'r Cyngor Sgiliau Sector (SSC) ar gyfer y llywodraeth ganolog. Nid oes gan yr un SSC arall gyflogwyr sydd i gyd yn destun i gyfrifoldeb casgliadol, ac sydd â strategaeth gytunedig a rennir. Mae'r Strategaeth Sgiliau ar gyfer Llywodraeth Ganolog yn cynnwys llywodraeth ganolog gyfan y DU, sef y Lluoedd Arfog, adrannau a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, eu hasiantaethau, a chyrff cyhoeddus anadrannol na chynhwysir gan SSCs eraill. Cafodd y Strategaeth ei pharatoi gan Sgiliau Llywodraeth a'i chytuno gan Ysgrifenyddion Parhaol a Phennaeth y Staff Amddiffyn yn Ionawr 2008.

"Credaf eu bod yn canolbwyntio ar y materion iawn, maent yn siarad yr iaith briodol, ac mae ganddynt y bwriadau cywir."

Ffynhonnell: Arolwg Bodlonrwydd Cwsmer Sgiliau Llywodraeth, Ebrill 2009

Rhoddodd y cyd-destun unigryw hwn rôl ychwanegol i Sgiliau Llywodraeth, sydd lawn mor unigryw ymysg SSCs: ffurfio rhaglen gyflenwi ar gyfer y Strategaeth Sgiliau, monitro ei chyflenwad, ac adrodd yn ôl i'r Ysgrifenyddion Parhaol. Yr atebolrwydd hwn i'r Ysgrifenyddion Parhaol yw prif yrrwr busnes Sgiliau Llywodraeth. Mae'n gyson â'n prif gyfrifoldeb fel SSC, sef gwasanaethu diddordebau cyflogwyr y sector. Wrth wneud hyn, rydym yn aml yn gorfod cynnwys neu ailgymodi gwahaniaethau mewn blaenoriaethau rhwng adrannau a phroffesiynau. I sicrhau bod Sgiliau Llywodraeth yn wirioneddol canolbwyntio ar y cyflogwr, rydym yn cael ein harwain gan Fwrdd sy'n cynnwys Ysgrifenyddion Parhaol ac uwch arweinwyr eraill ar draws y Gwasanaeth Sifil a'r Lluoedd Arfog, yn ogystal â chynrychiolydd o Gyngor Undebau'r Gwasanaeth Sifil.

Yn 2008, cymerodd Sgiliau Llywodraeth rôl ragweithiol iawn, yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Strategaeth Sgiliau ac yn annog partneriaid cyflenwi i ddechrau ei gweithredu. Yn awr byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi ymdrechion partneriaid i weithredu'r Strategaeth, a mesur ac adrodd ar gynnydd. Drwy adeiladu ar wersi a ddysgwyd yn ystod 2008, a'r mewnbwn a roddwyd gan bartneriaid i baratoi'r Cynllun hwn, rydym yn adolygu ein dull o ymgysylltu â hwy. Er mwyn sicrhau bod gennym y ddealltwriaeth orau bosib o'u safbwyntiau hwy a'r materion sy'n effeithio ar eu gwaith rydym yn:

- gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod gennym y berthynas iawn gyda phob un ohonynt; yn defnyddio cynlluniau cyfrif i sicrhau ein bod yn ffurfio'n dull ymgysylltu i adlewyrchu anghenion bob partner; a chynyddu'r flaenoriaeth a roddir i'r Lluoedd Arfog;
- sicrhau ein bod yn gwneud cysylltiadau priodol ar bob lefel o fewn adrannau, gan gynnwys uwch arweinwyr busnes a'r gymuned AD. Fel rhan o hyn, rydym yn ceisio gweithio gyda grŵp cyfeirio o arweinwyr AD adrannol, yn ddelfrydol mewn fforwm sydd eisoes yn bodoli;
- paratoi strategaeth ar gyfer ymgysylltu dysgwyr yn ein gwaith; a gweithio
- i sicrhau bod Sgiliau Llywodraeth, Grŵp Gallu Gwasanaeth Sifil (CSCG) Swyddfa'r Cabinet a'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol yn perthnasu i'n cyd-randdeiliad niferus mewn modd cyson a chydlynol.

Byddwn yn cefnogi ein hymgysylltiad gyda chyfathrebiadau priodol, gan gynnwys deunyddiau wedi'u hargraffu, cyflwyniadau a'r wefan Sgiliau Llywodraeth (www.government-skills.gov.uk). Byddwn yn defnyddio'r rhain i atgyfnerthu'r eiriolaeth an Weinidogion Sgiliau ar draws y DU a gan y Comisiwn dros Gyflogaeth a Sgiliau o'r achos busnes cryf ar gyfer sgiliau mewn cyfnod o ddirywiad economaidd. Byddant hefyd yn helpu partneriaid i gael gwell dealltwriaeth o'r rôl yr ydym yn gallu ei chwarae, a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Mae Sgiliau Llywodraeth, ar y cyd gyda'r holl SSCs eraill, wedi gwneud cais i'r Comisiwn am adnewyddu eu trwydded fel SSC. Bydd y broses ail-drwyddedu yn cael ei chwblhau yn ystod 2009. Pan fo'r cyfleoedd ar gael, bydd Sgiliau Llywodraeth yn parhau i weithio gydag SSCs eraill i wasanaethu ein rhanddeiliaid. Fel rhan o'r ymdrechion hyn byddwn yn parhau i fod yn aelod o'r Glymblaid o Sectorau Cyngor Sgiliau. Mae gennym ryngweithiad pwysig gyda Sgiliau er Cyfiawnder: bydd memorandwm cyd-ddealltwriaeth a ddatblygwyd â hwy a'n cyd-randdeiliaid yn egluro sut mae ein rolau yn ategu'i gilydd.

Newidiadau yn economi'r byd

Yn ystod y misoedd diwethaf, bu datblygiadau dramatig yn economi'r byd, gyda chanlyniadau pwysig i sgiliau drwy economi'r DU, ac yn arbennig i lywodraeth ganolog.

- Gostyngodd y twf disgwyliedig mewn gwledydd ar draws y byd, gan ail-bwysleisio'r angen am lwyddiant cystadleuol. Mae dull y DU o gyflawni'r llwyddiant hwnnw'n yn parhau i fod yn un sy'n ceisio cryfhau safle cystadleuol y genedl drwy greu economi sy'n canolbwyntio ar werth ychwanegol uchel - sydd angen lefelau sgiliau uwch yn gyffredinol. Mae hyn yn tanlinellu gwerth y Strategaeth Sgiliau.
- Mae'r dirywiad yn cael effaith fawr iawn ar raglenni a pholisïau ar draws y DU. Bydd rhaid i bob adran wneud arbedion ychwanegol sylweddol. Mae llawer o adrannau'n ailgyfeirio eu rhaglenni tuag ar sicrhau bod economi'r DU yn goroesi'r dirywiad yn y modd gorau bosib, ac yn ffynnu unwaith y bydd yr adfywiad yn dechrau. Rhaid iddynt gyflenwi'r agenda hon tra'n parhau i ymateb i orchmynion polisi sy'n bodoli eisoes. Bydd y ffocws newydd hwn yn creu newid yn y cydbwysedd sgiliau y mae adrannau eu hangen: er enghraifft, daw sgiliau sy'n ymwneud ag arloesiad yn gynyddol bwysig. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i gyflenwi buddiannau busnes y Strategaeth Sgiliau mor effeithlon â phosib.
- Bydd y newidiadau hyn yn cynyddu'r galw am y sgiliau sydd eu hangen i gyflenwi rhaglenni llywodraeth ac i baratoi staff ar gyfer eu hadleoli ble bynnag bo angen. Byddant hefyd yn creu gwasgedd ar bob cyllideb, gan gynnwys y rhai ar gyfer dysgu a datblygiad (D&D). Fodd bynnag mae gweinyddiaethau ar draws y DU, gydag uwch randdeiliaid, yn annog cyflogwyr drwy'r economi i gynnal gweithgaredd D&D. Mae'r gwasgedd hwn yn atgyfnerthu'r achos ar gyfer prosiectau Gweithredu Cyffredin ac Addysg Uwch a Phellach o fewn y Strategaeth Sgiliau, y ddau wedi'u targedu yn benodol ar gyflenwi gwell gwerth am arian.
- Gyda rhagolygon cyflogaeth yn fwy anodd, bydd trosiant staff mewn llywodraeth yn gostwng. Gall diweithdra uwch ymysg pobl sgil uchel hefyd ei gwneud yn haws i'w recriwtio. Gyda phwysau cryf tebygol ar ostwng biliau cyflog, bydd D&D yn dod yn rhan bwysicach fyth o'r pecyn gwobrwyo cyfan i staff. Mae polisi sgiliau'n datblygu'n gyflym, gyda mentrau'n rhan bwysig o ymateb y Llywodraeth i'r dirywiad economaidd. Yn Lloegr, mae hyn wedi cynnwys cynnydd sylweddol mewn cyllido a thargedau ar brentisiaethau, datblygu profiad gwaith graddedigion, cymorth ychwanegol i gwmnïau bach a sefydliadau trydydd sector (gan gynnwys ariannu i ailhyfforddi gweithwyr), a datblygiad parhaus Partneriaethau Cyflogaeth Lleol. Mae'r mentrau brys hyn i ymateb i'r dirywiad yn atgyfnerthu ymrwymiad tymor hirach y Llywodraeth i gynyddu lefelau sgiliau yn unol â'r agenda a osodwyd gan Yr Arglwydd Leitch. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn gwneud ymdrechion cyffelyb.
- Bydd darparwyr hyfforddiant yn wynebu llai o alw drwy'r economi gyfan, yn eu hannog i gynnig gwerth ardderchog er mwyn cystadlu. Hefyd mae'n bosib y bydd peth cyfnerthiad o'r sylfaen cyflenwyr.

Cadarnhaodd Ysgrifenyddion Parhaol a Phennaeth y Staff Amddiffyn yn Nhachwedd 2008 eu hymrwymiad i gyflenwi'r Strategaeth Sgiliau. Wrth baratoi'r cynllun hwn, mae Sgiliau Llywodraeth wedi archwilio gydag adrannau, proffesiynau a rhanddeiliaid eraill y modd y dylai'r rhaglen gyflenwi gael ei haddasu i ystyried y canlyniadau hyn o'r dirywiad economaidd.

- Daw cyllidebau D&D y Gwasanaeth Sifil i gyfanswm o dros £500 miliwn. Bydd gwaith ar Weithredu Cyffredin ac (ar raddfa amser ychydig yn hirach) ar gysylltiadau i Addysg Uwch a Phellach yn cynhyrchu arbedion ar y cyllidebau hyn. Mae'r hinsawdd economaidd yn cryfhau'r achos dros sicrhau arbedion o'r fath.
- Mae'r Prif Weinidog wedi pwysleisio dro ar ôl tro bod y dirywiad yn gwneud uwchsgilio yn bwysicach fyth. Bydd Sgiliau Llywodraeth yn parhau i roi cyngor i gydweithwyr polisi sgiliau yn yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (DIUS) a'r Gweinyddiaethau Datganoledig am y ffyrdd mwyaf effeithiol y gall cyflogwyr Llywodraeth gyfrannu at yr ymdrechion hyn. Mae gan y proffesiynau ran hanfodol i'w chwarae mewn uwchsgilio, ac felly dylid parhau i'w datblygu. Bydd yma rôl arbennig o ganolog i'r proffesiynau Polisi a Chyflenwi Gweithredol.
- Bydd Sgiliau Llywodraeth – drwy weithio gyda CSCG a phartneriaid eraill – yn lansio trafodaeth gyda phroffesiynau ac adrannau ar strategaeth ar y cyd ar gyfer casglu, storio a lledaenu data gweithlu gan ganol y Llywodraeth, sy'n cydnabod anghenion amrywiol proffesiynau, yn gosod set unigol o ofynion ar adrannau, ac yn gostwng yr ymdrechion sydd eu hangen ganddynt.

- Unwaith eto, bydd adroddiad 2009 i'r Ysgrifenyddion Parhaol ar gyflenwad y Strategaeth Sgiliau gan adrannau a Gweinyddiaethau Datganoledig yn seiliedig ar adolygiad gan gymheiriaid. Bydd Sgiliau Llywodraeth yn sicrhau bod y broses yn gwneud gofynion llawer llai ar adnoddau adrannol.

Effaith y Strategaeth sydd wedi'i chynllunio

Gyda'i gilydd, mae cydrannau'r Strategaeth yn rhoi ymateb cydlynol i'r her ar draws amrediad o faterion sgiliau. Pan fydd y cyflenwad yn gyflawn:

- Bydd pob gwas sifil yn perthyn i gymuned broffesiynol, a fydd – ochr yn ochr â strwythurau AD adrannol – â rôl bwysig sy'n gyrru ei ddatblygiad ef/hi. Bydd gan y proffesiynau Cyflawni Gweithredol a Pholisi cymharol newydd rolau allweddol yma;
- Bydd y rolau ym mhob proffesiwn yn cael eu dynodi a, ble fo'n briodol, bydd gofynion safonau a chymwysterau'n cael eu gosod iddynt ble nad ydynt eisoes yn bodoli;
- Bydd y D&D sydd ei angen i gyflawni'r safonau a chymwysterau hynny yn cael eu caffael mewn modd mwy effeithlon, yn rhoi gwell gwerth am arian trwy weithredu cyd-gysylltiedig er mwyn ymdrin â'r bylchau sgiliau drwy'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol a lleoedd eraill;
- Bydd hyfforddiant ar gyfer bob aelod o'r Lluoedd Arfog yn cael ei gydnabod o fewn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF, ac yn yr Alban yr SCQF); a
- Bydd y sectorau Addysg Uwch a Phellach yn rhoi cymorth sydd wedi'i deilwrio'n well ac felly'n fwy effeithiol i gyflogwyr a staff Llywodraeth.

Mae gweddill y cynllun hwn yn disgrifio'r ffocws ar gyfer bob maes o weithredu o fewn y Strategaeth.

Sgiliau a Safonau Proffesiynol

Erbyn Mawrth 2010 bydd y proffesiynau Cyflawni Gweithredol a Pholisi wedi'u sefydlu'n dda, ac yn dechrau gyrru'r datblygiad sgiliau ar draws y Llywodraeth yn unol ag anghenion y busnes. Erbyn Rhagfyr 2009 bydd adrannau a phroffesiynau wedi cytuno a pheilotio "map-ffordd" sy'n helpu adrannau i ymwreiddio sgiliau proffesiynol yn eu gweithredoedd.

Bydd y weledigaeth o broffesiynau traws-lywodraeth effeithiol sydd wedi'u nodi gan y Strategaeth Sgiliau, dros amser, yn caniatáu llwybrau datblygiad cliriach i unigolion; gwell symudoledd staff rhwng adrannau, a rhwng y gwasanaeth sifil a chyflogwyr eraill; a bydd yn annog lledaeniad arfer dda. Yn ystod blwyddyn gyntaf y Strategaeth, gwelwyd y proffesiynau mewn llywodraeth yn datblygu proffil cynyddol Y flaenoriaeth uchaf yw datblygu'r ddau broffesiwn mwyaf a lleiaf datblygedig – cyflawni gweithredol a pholisi – sy'n cynnwys tua dwy ran o dair o weision sifil.

Yn ystod 2008 adeiladodd Sgiliau Llywodraeth dimau newydd i gefnogi'r Penaethiaid Proffesiwn Cyflawni Gweithredol a Pholisi. Mae'r timau hyn yn atebol i'w Penaethiaid Proffesiwn unigol, ond wedi'u trefnu fel rhan o Sgiliau Llywodraeth.

Yn 2009 bydd y proffesiwn Cyflawni Gweithredol yn parhau i ddatblygu dealltwriaeth a diffiniad o'r proffesiwn, a'i rolau swydd a galwedigaethau amrywiol. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, edrych yn agos ar swyddogaethau cyflenwi ar draws llywodraeth ac asesu'r dulliau presennol o ddatblygu cynhwysedd staff mewn adrannau unigol. Bydd y ffocws ar ar sicrhau bod safonau priodol, cysylltiedig â chymwysterau ble fo hynny'n berthnasol, yn cefnogi staff sy'n gweithio mewn canolfannau cyswllt ac mewn rolau prosesu. Mae'r Comisiwn Dros Gyflogaeth a Sgiliau wedi cytuno i ariannu datblygiad o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) yn y meysydd hyn. Mewn ymateb i alw cyflogwyr, bydd y proffesiwn hefyd yn datblygu cymwysterau ble bydd eu hangen.

Mae'r Bwrdd Gweithredu Polisi Proffesiwn, a arweinir gan Ddirprwy Bennaeth y Proffesiwn, wedi cytuno ar dair ffrwd waith:

- i ddatblygu cymuned broffesiynol, yn gweithio drwy Bennaeth Proffesiwn pob adran a'u cefnogi gan gyfathrebiadau;
- i adolygu'r datblygiad safonau proffesiynol a darpariaeth hyfforddiant hyd yma drwy Ddadansoddi Anghenion Hyfforddiant. Drwy weithio o'r dadansoddiad hwn, bydd y proffesiwn yn arwain datblygiad cwricwlwm cyffredin ar gyfer gwaith polisi – ceir mwy o wybodaeth isod yn yr adran Gweithredu Cyffredin. Mae Canolfan Gwasanaeth Sifil Gogledd

Iwerddon ar gyfer Dysgu Cymhwysol, mewn partneriaeth â Sgiliau Llywodraeth, wedi datblygu cymhwyster peilot mewn sgiliau polisi. Yn ystod 2009-10 bydd y proffesiwn yn gwerthuso'r peilot hwnnw. Yn 2008 datblygodd y proffesiwn Polisi NOS ar gyfer agweddau craidd o waith polisi. Yn 2009 bydd yn datblygu map galwedigaethol ar gyfer ei broffesiwn; a gweithio

- i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth i'r proffesiwn.

Bydd yr holl broffesiynau angen cymorth uniongyrchol gan adrannau. Gyda dros 20 o bob un, gallai hyn greu gwe gymhleth o gysylltiadau. Mewn ymateb i'r galw gan broffesiynau ac adrannau, yn ystod 2009 bydd Sgiliau Llywodraeth yn gweithio gyda phartïon allweddol i ddatblygu "map-ffordd" - fframwaith hyblyg i helpu adrannau ymwreiddio safonau proffesiynol i'w AD a gwaith arall mewn modd cyson a syml. Bydd yn rhoi arwyddbyst tuag at gyngor gan y proffesiynau ar sut y dylai polisïau a phrosesau ar faterion megis recriwtio, cadw staff, a rheoli perfformiad addasu yn unol â rôl estynedig y proffesiynau. Bydd yn caniatáu i broffesiynau ac adrannau ddatblygu eu cysylltiadau presennol a nodi disgwyliadau'r dyfodol. Bydd y map ffordd yn cael ei beilotio o Fehefin 2009. Yng ngoleuni'r profiad gyda'r peilot ac ymgynghoriad gyda phartneriaid bydd yn cael ei gyflwyno'n raddol ar draws y llywodraeth yn 2010. Bydd Sgiliau Llywodraeth yn parhau i gefnogi datblygiad y proffesiynau. Rydym yn trafod gyda phob un pa ffurf y dylai'r gefnogaeth hon ei chymryd, ac yn addasu ein cymorth i adlewyrchu eu hanghenion.

Yn ystod 2008, paratôdd Sgiliau Llywodraeth y Strategaeth Cymwysterau Sector. Roedd hon yn nodi buddiannau posib cymwysterau:

- galluogi cyflogwyr i adleoli staff yn gyflym ac effeithiol er mwyn cwrdd â galwadau busnes sy'n newid: fel y nodwyd uchod, bydd adleoli yn fater o bwys i gyflogwyr yn ystod y dirywiad presennol;
- helpu cyflogwyr i gael sicrwydd ansawdd o'u gwasanaethau – mater o bwys ar hyn o bryd o safbwynt diwygio'r gwasanaeth sifil;
- gwella hygrededd cyflogwyr gyda'u rhanddeiliaid; a
- caniatáu i weithwyr ddangos caffaeliad sgiliau perthnasol a throsglwyddadwy.

Yn rhannol am resymau hanesyddol, nid oes gan y rhan fwyaf o gyflogwyr sector fawr o awydd am gymwysterau ar hyn o bryd. Wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu, bydd cyflogwyr yn cael eu hannog i ystyried buddiannau cymwysterau, a'u mabwysiadu pan wneir yr achos busnes. Cafodd y Strategaeth Gymwysterau ei chymeradwyo gan y Comisiwn ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau. O dan gyfarwyddyd ei fwrdd, mae Sgiliau Llywodraeth yn awr yn datblygu fframwaith cymwysterau ar gyfer y gwasanaeth sifil, yn dangos sut gall y gwasanaeth wneud y defnydd gorau o gymwysterau. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ar y cyd gyda phartneriaid, a'i gyflwyno i Ysgrifenyddion Parhaol i gytuno arno cyn ei weithredu.

Wrth i adrannau addasu i atgyfnerthiad y proffesiynau, ac i gyllidebau D&D ddod o dan bwysau, bydd angen cynyddol ar i adrannau allu rheoli D&D yn gadarn. Mae Sgiliau Llywodraeth, drwy weithio gyda'r proffesiwn AD a'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol, yn bwriadu hyrwyddo trafodaeth ymysg adrannau ynghylch y gallu i reoli'r D&D maent ei angen a'r modd gorau o'i gyflenwi. Rydym wedi derbyn adborth positif gan adrannau ynglŷn â'r cynnig hwn. Cytunir gydag Arweinwyr AD ar amseriad y drafodaeth, gan roi ystyriaeth i gynlluniau gwaith datblygu gallu AD.

Mae pob un o'r datblygiadau hyn wedi'u hadeiladu ar y fframwaith gallu Sgiliau Proffesiynol ar gyfer Llywodraeth (PSG), sef cynnyrch mwyaf amlwg Sgiliau Llywodraeth. Yn ystod 2009 byddwn yn parhau i weithio gydag adrannau i weithredu'r fframwaith PSG ar draws gweddill y gwasanaeth sifil. Byddwn yn adolygu'r ffordd y mae'r fframwaith yn cael ei chyflwyno i'w chwsmeriaid. Ac mewn partneriaeth gyda phroffesiynau ac adrannau, byddwn yn cyflwyno'r meini prawf ar gyfer "profiad ehangach" yn raddol, a fydd yn chwarae rôl bwysig wrth bennu cymhwyster ar gyfer uwchraddio. Yn olaf byddwn yn parhau i fonitro a gwerthuso'r fframwaith yn ei chyfanrwydd. Mae materion sgiliau pellach yn codi'n rheolaidd o ganlyniad i bolisïau traws-Lywodraeth unigol. Y proffesiynau fydd yn cael y rôl arweiniol wrth ddatblygu ymateb i'r materion hyn.

Yn 2007 llofnododd Ysgrifenyddion Parhaol holl Adrannau Whitehall yr "Adduned Sgiliau". Mae hyn yn eu hymrwymo i gynnig mynediad i'w holl staff i'r D&D sydd ei angen i gaffael cymwysterau Lefel 2 – sydd gwerth ag ennill 5 TGAU ar raddau A*-C. Mae adrannau'n anelu at sicrhau bod 95% o staff yn cyrraedd y lefel hon erbyn Mawrth 2011. Yn 2007 y gyfran oedd 85%. I gwrdd â'u hymrwymiad, bydd angen i adrannau wella cymwysterau tua 50,000 o staff presennol yn ogystal ag ystyried trosiant staff. Gofynnodd yr Ysgrifenyddion Parhaol i bob adran ddiffinio, erbyn diwedd 2008, y llwybr maent yn bwriadu ei gymryd i gyrraedd y nod o 95%. Bydd Sgiliau Llywodraeth yn parhau i gefnogi cynllunio gan

adrannau ynghylch y modd o gyflawni'r Adduned Sgiliau, ac i fonitro'r canlyniadau. Mae'r Undebau Llafur yn eiriolwyr cryf dros gyflawni'r Adduned Sgiliau. Byddwn yn parhau i weithio gyda hwy ar hyn a phrosiectau eraill i sicrhau canlyniadau sydd o fudd i'w haelodau a gwasanaeth cyhoeddus.

Mae polisi Llywodraeth ehangach ar sgiliau a chymwysterau, a'r mecanweithiau sy'n ei gyflenwi, wedi bod yn datblygu'n gyflym, yn nodedig gyda chyflwyniad y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau sydd ar y gweill. Bydd Sgiliau Llywodraeth yn gwneud dadansoddiad "credydau a lefelu" o safonau a chymwysterau newydd ar gyfer mynediad i'r Fframwaith, a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn yr Alban a Chymru. Mae'r gwaith hwn tu allan i'r Strategaeth Sgiliau: caiff ei ariannu gan grantiau penodol gan y Comisiwn dros Gyflogaeth a Sgiliau.

Gweithredu Cyffredin: Rôl newydd i'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol

Mae Gweithredu Cyffredin eisoes wedi cyflenwi tua £3.5 miliwn o ariannu ychwanegol i adrannau er mwyn cefnogi prentisiaethau. Erbyn Mawrth 2010 bydd yn cyflenwi:

- **arbedion i adrannau a fydd werth o leiaf £1.25m ar sail blwyddyn lawn; a'r**
- **camau cynnar yn natblygiad rhaglen ddysgu gorfforaethol mewn meysydd sy'n allweddol i'r Gwasanaeth Sifil.**

Drwy weithio gyda'i gilydd i gwrdd ag anghenion datblygiad eu staff, gall adrannau a'r Lluoedd Arfog arbed arian, gyflawni gwell ansawdd, a hwyluso cyfnewid rhwng staff. Cytunodd Ysgrifenyddion Parhaol yn Ionawr 2009 y dylai'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol adnewyddedig fod yn offeryn ar gyfer trawsffurfio gwasanaeth cyhoeddus. Cytunasent mewn egwyddor ar raglen D&D gasgliadol, gydberchnogol, wedi'i dylunio ar y cyd, fel "cwricwlwm craidd" i'r Gwasanaeth Sifil, a fyddai'n cael ei chyflenwi drwy'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol.

Bydd hyn yn atgyfnerthu'n fawr yr ymdrechion presennol i hyrwyddo comisiynu a chaffael cyffredin o D&D. Mae'r prosiect Gweithredu Cyffredin eisoes yn cael ei ailgyfeirio i gefnogi'r nod hwn. Bydd Sgiliau Llywodraeth yn gweithio gyda'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol i ddod ag adrannau a phroffesiynau at ei gilydd i ffurfio'r rhaglen ddysgu gorfforaethol. Y cam cyntaf fydd cefnogi ac ariannu'r proffesiwn Polisi i ddiffinio cwricwlwm a gomisiynir yn gyffredin ar gyfer sgiliau polisi sy'n seiliedig ar Ddadansoddiad Anghenion Hyfforddiant (TNA). Bydd y gwaith hwn yn ymgysylltu'r Ysgol Genedlaethol a'r Adrannau, gydag 13 ohonynt eisoes wedi'u cynnwys. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn, a disgwylir cwblhau'r TNA ym Mai 2009.

Drwy weithio gyda phartneriaid, bydd Sgiliau Llywodraeth yn parhau i chwilio am opsiynau ar gyfer comisiynu cyffredin, a cheisio ffurfio cynghreiriau er mwyn ei ddatblygu. Byddwn yn ymgynghori'n rheolaidd â Chyfarwyddwyr AD adrannol, y Lluoedd Arfog a Phenaethiaid Proffesiwn ar ffurf y rhaglen hon. Bydd ymddangosiad y cwricwlwm cyffredin yn rhoi cyfleoedd pwysig pellach yma. Mae rhanddeiliaid eisoes wedi dynodi sgiliau canolfan gyswllt fel maes posib ar gyfer gwaith pellach. Bydd y gynghrair hon yn cael ei harwain gan y proffesiwn Cyflawni Gweithredol. Mae gwaith yn debygol o gychwyn yn nes ymlaen yn 2009.

Bu adrannau hefyd yn hyrwyddo caffaeliad cyffredin drwy agor eu contractau – ac weithiau cyrsiau unigol – i'w gilydd. Bydd Sgiliau Llywodraeth yn parhau i annog yr ymdrechion hyn a hwyluso trafodaeth ryngadrannol ynglŷn ag anghenion a chyfleoedd. Bu'r gyfradd manteisio ar y cyfleoedd hyn yn gyfyngedig hyd yma. Byddwn yn trafod gydag adrannau sut y gellid cynyddu'r gyfradd hon. Fel rhan o hynny, byddwn yn parhau i weithio gydag OGC a Buying Solutions i ddatblygu'r ffyrdd y caiff gwybodaeth am gyfleoedd ei rhannu o amgylch y llywodraeth. Mae un cyfle sylweddol i sicrhau caffaeliad cyffredin yn dechrau dod ar gael yn awr ar ffurf contract fframwaith Buying Solutions ar gyfer D&D, a gafodd ei lansio yn Chwefror 2009. Mae hyn yn caniatáu i Adrannau brynu D&D mewn nifer o gategorïau oddi wrth amrediad o gyflenwyr drwy ddefnyddio dulliau caffael llawer symlach. Fel rhan o'n hyrwyddiad o gaffaeliad cyffredin, bydd Sgiliau Llywodraeth, mewn partneriaeth â Buying Solutions, yn parhau i gefnogi a hyrwyddo'r fframwaith hwn, tra'n cydnabod safle'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol fel y ffynhonnell fewnol bosib ar gyfer D&D i'r Llywodraeth.

Rhoddwyd proffil gwleidyddol hyd yn oed uwch i brentisiaethau gyda datganiad gan y Prif Weinidog ar ddydd Mercher 7 Ionawr 2009 ynghylch ariannu 35,000 brentisiaethau ychwanegol yn Lloegr yn 2009-10. Gosododd y Strategaeth Sgiliau darged 500 brentisiaethau mewn rhaglen cynllun braenaru a gafodd ei

redeg drwy lywodraeth ganolog yn Lloegr yn ystod 2008-09. Aethpwyd ymhell tu draw i'r targed hwnnw: cafodd 1,395 o leoedd newydd eu creu erbyn diwedd Mawrth 2009. Rydym eisoes wedi cynnal gwerthusiad dros dro o'r cynllun braenaru a byddwn yn gwneud gwerthusiad terfynol yn 2010. Byddwn yn cefnogi Gweinidogion Sgiliau ar draws y DU mewn camau pellach i gynyddu'r gyfradd hawlio prentisiaethau mewn llywodraeth ganolog. Byddwn yn ceisio adeiladu cysylltiadau rhwng y rhaglen brentisiaeth a pholisïau eraill, megis Partneriaethau Cyflogaeth Lleol. Byddwn yn parhau i roi cymorth a chyngor i adrannau a Gweinyddiaethau Datganoledig ynglŷn â phrentisiaethau, ac yn cydweithio gyda chyflwyniad fesul cam y Gwasanaeth Sifil yn Rhanbarthau Lloegr i gefnogi'r niferoedd cynyddol o brentisiaethau ar draws yr holl adrannau.

Addysg Uwch a Phellach

Erbyn Mawrth 2010 byddwn yn cyflenwi amrediad o ddatrysiadau er mwyn gwella perthnasedd ac effeithiolrwydd cost darpariaeth Addysg Uwch a Phellach ar gyfer y llywodraeth ganolog drwy ddealltwriaeth drylwyr o anghenion cyflogwyr a gwell ymgysylltiad â'r sectorau AU ac AB.

Mae'r elfen hon o'r Strategaeth Sgiliau yn amcanu at wireddu potensial y berthynas rhwng y Llywodraeth a'r sectorau Addysg Uwch a Phellach. O drafodaethau a gynhaliwyd rhwng Sgiliau Llywodraeth, partneriaid cyflenwi a'r sectorau eu hunain, daeth yn glir yn ystod 2008-09 y dylai gynnwys tair elfen:

- Rhesymoli a datblygu'r D&D mae'r llywodraeth eisoes yn ei gael gan Addysg Uwch a Phellach, gan ei gysylltu'n agos â'r gwaith ar Weithredu Cyffredin. Mae prosiect peilot yn awr ar y gweill i resymoli defnydd y llywodraeth o raglenni MBA ac MPA, gyda'r amcan o gychwyn comisiynu cyffredin ar y fath gyfleoedd. Mae prosiect peilot pellach yn archwilio'r potensial i annog prifysgolion i ddarparu gwell hyfforddiant mewn ieithoedd tramor ar gyfer y Lluoedd Arfog, y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, a sefydliadau eraill.
- Dylanwad dros gymwysterau presennol, a datblygiad rhai newydd, sy'n eistedd yn naturiol ochr yn ochr â'r prosiect Safonau Proffesiynol. Gydag ariannu prosiect gan y Comisiwn dros Gyflogaeth a Sgiliau, bydd Sgiliau Llywodraeth hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â nifer o SSCs eraill, detholiad o adrannau, a'r sector Addysg Bellach i ddatblygu a chyflenwi Diploma mewn Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y grŵp oed 14-19. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i'r proffesiwn Cyflawni Gweithredol a'r Lluoedd Arfog.
- Gwell ymgysylltu rhwng adrannau a phroffesiynau a'r sectorau Addysg Uwch a Phellach er mwyn sicrhau bod cymwysterau a hyfforddiant yn cwrdd ag anghenion y llywodraeth ganolog.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn ystod 2009 i ddatblygu prosiectau tebyg pellach, a thrwy hynny greu agenda deinamig yr ymgysylltir cynrychiolwyr Addysg Bellach ac Uwch ynddi. Mae'r prosiectau pellach hyn yn debygol o gynnwys gwaith i gynnwys Addysg Bellach mewn darparu hyfforddiant a chymwysterau i'r proffesiwn Cyflawni Gweithredol.

Mesur a gwerthuso'r Strategaeth

Erbyn Gorffennaf 2009 byddwn yn rhoi diweddariad pellach i Ysgrifenyddion Parhaol ynglŷn â chyflenwi'r Strategaeth Sgiliau, gan gynnwys canlyniadau pellach adolygiad gan gymheiriaid o gyflenwi adrannol.

Erbyn Hydref 2009, byddwn yn cyflwyno adroddiad cynnydd i Ysgrifenyddion Parhaol a rhanddeiliaid eraill ar gyflenwad yr Adduned Sgiliau ac effaith y fframwaith Sgiliau Proffesiynol ar gyfer Llywodraeth a'r Strategaeth Sgiliau.

Yn 2008, datblygodd Sgiliau Llywodraeth fframwaith gwerthuso ar gyfer y Strategaeth Sgiliau. Byddwn yn paratoi adroddiad i Ysgrifenyddion Parhaol yng Ngorffennaf 2009, yn seiliedig ar adroddiadau gan yr holl Adrannau ar gynnydd yn erbyn wyth o ddangosyddion perfformiad. Bydd yr adroddiadau hyn yn destun i adolygiad cymheiriaid gan baneli o weithwyr proffesiynol D&D Llywodraeth, yn adeiladu ar lwyddiant proses adolygiad gan gymheiriaid yn 2008.

Mae CSCG yn datblygu strategaeth gweithlu ar gyfer y Gwasanaeth Sifil cyfan. O fewn y strategaeth hon, bydd ffocws newydd ar gynllunio'r gweithlu, er mwyn sicrhau cyflenwad amserol o bobl sydd â'r sgiliau

cywir i gwrdd ag anghenion busnes. Bydd gan y proffesiynau rôl newydd bwysig yma. Bydd CSCG yn cynhyrchu cynllun gweithlu ar wahân ar gyfer yr SCS. Bu Sgiliau Llywodraeth yn gweithio gydag adrannau i grynhoi data gweithlu cadarn a chydlynol i gefnogi'r holl ymdrechion cynllunio hyn. Yn ystod 2008-09 rydym wedi darparu data i bob proffesiwn ynghylch staff yn ei faes, wedi'i ddadansoddi yn ôl gradd, lleoliad, proffesiwn a rhywedd. Roedd y materion a gododd o'r ymarfer yn cynnwys ansicrwydd ynghylch y cartref proffesiynol i staff cymorth gweinyddol, ac ansawdd anghyson y data staffio a gedwir gan rhai adrannau. Rydym yn awr yn trafod gyda'r proffesiynau sut y bydd eu hanghenion data yn debygol o esblygu yn y dyfodol.

Gyda'n partner ymchwil strategol, Experian, bydd Sgiliau Llywodraeth yn cwblhau cyflenwad Arolwg Sgiliau 2009 a chyflwyno'i ganlyniadau erbyn Medi 2009. Bydd yr Arolwg hwn yn darparu gwybodaeth werthfawr i'n helpu i werthuso polisïau sgiliau ar bob lefel. Mae rhannau eraill o ganol y llywodraeth –yn nodedig CSCG – hefyd ag anghenion pwysig am ddata gweithlu i danategu, er enghraifft, ddatblygiad strategaeth gwobrwyo'r Gwasanaeth Sifil.

Mae adrannau a phroffesiynau wedi tynnu sylw at nifer o faterion ynghylch y dull o gyflenwi data gweithlu a'r Arolwg Sgiliau. Unwaith y bydd Arolwg Sgiliau 2009 wedi'i gwblhau byddwn yn gweithio gyda CSCG a phartneriaid eraill i lansio trafodaeth gyda phroffesiynau a'r Adrannau ar strategaeth ar y cyd gan ganol y llywodraeth i gasglu, cadw a lledaenu data gweithlu'r gwasanaeth sifil. Bydd hyn yn ceisio cydbwyso galwadau data amrywiol y gwahanol broffesiynau a'r canol gyda gallu'r adrannau i gyflenwi'r wybodaeth. Bydd y strategaeth ar y cyd yma'n pennu'n dull o gasglu data adrannol ynglŷn â chymwysterau ac ar gyfer arolygon staff y dyfodol.

Bydd Sgiliau Llywodraeth, yn gweithio gyda Experian, yn parhau i fonitro ac adrodd ar batrymau, materion a ffyrdd o feddwl arwyddocaol er mwyn hysbysu'r modd mae'r Strategaeth Sgiliau bresennol yn cael ei chyflenwi, a datblygiad strategaeth newydd ar gyfer y blynyddoedd o 2011. Yn benodol byddwn yn cwblhau ein gwaith ar Sgiliau'r Dyfodol, yn tynnu ar waith arweinwyr y gwasanaeth sifil yn hydref 2008 i ddatblygu'r weledigaeth a rennir o heriau a blaenoriaethau'r dyfodol i'r gwasanaeth.

Mae Sgiliau Llywodraeth wedi comisiynu ymchwil annibynnol o farn ein cwsmeriaid, er mwyn cefnogi gwerthusiad o'n cyfraniad ein hunain i'r Strategaeth Sgiliau. Bydd yr ymchwil hwn yn adeiladu ar fonitro adborth gan ein cwsmeriaid ar bob lefel, yn nodedig drwy ymatebion Ysgrifenyddion Parhaol i'n hadroddiadau rheolaidd. Bydd yn cael ei gwblhau yng ngwanwyn 2009.

Adnoddau

Bydd Sgiliau Llywodraeth yn parhau i reoli'r rhaglen Strategaeth Sgiliau a'r adnoddau cysylltiedig yn unol ag arfer dda.

Mae Sgiliau Llywodraeth yn derbyn tair ffynhonnell o ariannu sy'n gwneud cyfanswm tua £4.4 miliwn:

- grant mewn cymorth ac ariannu prosiect gan y Comisiwn dros Gyflogaeth a Sgiliau, sy'n dod i gyfanswm o tua £1.8 miliwn bob blwyddyn;
- tua £0.8 miliwn gan DIUS;
- tua £1.5 miliwn wedi'i gyfrannu gan Adrannau ar sail pro rata i'r nifer pennau, fel y cytunwyd gan Ysgrifenyddion Parhaol wrth gytuno i'r Strategaeth Sgiliau ar gyfer Llywodraeth Ganolog yn Ionawr 2008.

Mae dosraniad yr adnoddau hyn rhwng gweithgareddau dros ddwy flynedd sy'n weddill o'r Strategaeth Sgiliau fel a ganlyn:

- Mesur a gwerthusiad 18%
- Addysg Uwch a Phellach 5%
- Gweithredu Cyffredin 25%
- Proffesiwn Cyflawni Gweithredol 23%
- Proffesiwn Polisi 17%
- Sgiliau a safonau proffesiynol 12%



O'r gwariant hwn, mae dros ddwy ran o dair yn ymwneud â staffio Sgiliau Llywodraeth. Mae un rhan o ddeg pellach yn cael ei wario ar brosiectau ymchwil a chaffaeliadau allanol mawr tebyg.

Cyhoeddwyd Ebrill 2009.

Ceir copïau pellach o'r adroddiad hwn ar gael ar dudalen ymchwil a chyhoeddiadau ein gwefan
www.government-skills.gov.uk

Cysylltwch â ni ar:
info@government-skills.gsi.gov.uk